National Theatre




# Adnoddau Ysgol Uwchradd Nye

## Pŵer Areithiau



Michael Sheen as Nye Bevan. Photo by Johan Persson, 2024

# Areithiau ac ysgrifennu areithiau: datblygu llafaredd yn eich ystafell ddosbarth

Datblygwyd yr adnoddau hyn gan yr Athrawes Saesneg a'r Cyfryngau brofiadol a'r arbenigwraig llafaredd Kathryn Lam. Maen nhw wedi'u cynllunio i athrawon eu defnyddio i gefnogi datblygiad sgiliau llafaredd yn yr ystafell ddosbarth gyda myfyrwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ac uwch. Gellir eu defnyddio ochr yn ochr ag astudiaeth cynhyrchiad y National Theatre o Nye neu fel adnoddau annibynnol.

Yn ogystal â'r adnoddau hyn, efallai yr hoffech chi archwilio ein hadnoddau estynedig sy'n archwilio'r defnydd o rethreg mewn drama, gan ddefnyddio enghreifftiau o gynyrchiadau National Theatre a National Theatre Collection.

# Cyswllt i TGAU:

Mae'r adnoddau hyn yn adlewyrchu gofynion y Rhaglenni Astudio Saesneg ac yn datblygu ac yn atgyfnerthu sgiliau sydd eu hangen ar gyfer asesiadau darllen ac ysgrifennu TGAU. Ymhellach, gellid defnyddio'r adnoddau hyn i gefnogi'r ardystiad iaith lafar.

Gellir addasu'r adnoddau hyn i'w cyflwyno mewn un wers neu gyfres o wersi gan greu cynllun byr o ddysgu ar gyfer sgiliau darllen ffeithiol a sgiliau ysgrifennu perswadiol/trafodol.

# Cynnwys

**Ynglŷn â Nye Bevan** .................................. 4

**Yr angen am lafaredd** ................................ 5

**Cynhesu** .............................................. 7

dod o hyd i'ch llais

**Rhethreg Nye Bevan** ................................. 10

archwilio lleisiau eraill

**Detholiadau o areithiau Bevan** .................... 12

**Gweithredu** .......................................... 16

datblygu eich llais

**Enghraifft o fap-meddwl/cynllun** .................. 17

**Taflen cynllunio araith** ............................. 18

**Cyflwyno** ............................................ 20

perfformio eich llais

**Meini prawf asesu** .................................. 22

mae fy llais yn bwerus

# Ynglŷn â Nye Bevan

O ymgyrchu yn y maes glo i arwain y frwydr i greu'r GIG, cyfeirir yn aml at Aneurin 'Nye' Bevan fel y gwleidydd sydd wedi dylanwadau fwyaf ar ein gwlad heb fod yn Brif Weinidog erioed.

Ganwyd Bevan ar 15 Tachwedd 1897 yn Sir Fynwy, ac roedd yn fab i löwr a gwniadwraig. Roedd yn un o ddeg o blant, gyda dim ond chwech ohonynt yn goroesi plentyndod. Gadawodd yr ysgol pan oedd yn 13 mlwydd oed ac, fel ei dad, gweithiodd fel glöwr i ddechrau. Yn gyflym daeth yn rhan o wleidyddiaeth undeb y glowyr lleol ac etholwyd ef yn Gadeirydd Cyfrinfa'r Undeb pan oedd yn ddim ond pedair ar bymtheg oed. Oddi yno aeth ymlaen i fod yn gynghorydd Llafur lleol ac enillodd ysgoloriaeth i'r Coleg Llafur Canolog yn Llundain. Ar ôl dychwelyd i Gymru, dioddefodd sawl blwyddyn o ddiweithdra, cyn cael ei ethol yn AS dros Lynebwy ym 1929.

Fel AS, aeth Bevan i frwydr yn rheolaidd gyda'r wrthblaid a'i blaid ei hun. Brwydrodd yn erbyn system oedd yn tragwyddoli tlodi ac anghyfiawnder ac roedd yn feirniadol o Winston Churchill yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn 1945, fe wnaeth y Prif Weinidog Clement Attlee benodi Bevan yn Weinidog Iechyd a Thai. Mae'n debyg bod Bevan enwocaf am sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym 1948.

Pan oedd yn blentyn, roedd Bevan yn dioddef o atal dweud difrifol, a dysgodd ei reoli trwy adrodd darnau hir gan lenorion enwog. Fe'i nodir yn aml fel rhywun a ddaeth yn areithiwr gwych er gwaethaf ei atal dweud ac roedd yn arwr arbennig i Ed Balls, oedd hefyd yn dioddef o atal dweud, ac yn fwyaf diweddar yn wleidydd Llafur. Ed Balls gyflwynodd degfed Darlith flynyddol Aneurin Bevan, ac yma trafododd hyn. Gallwch weld yr araith yma.

Pan gafodd ei gyfweld gan Kate Wyver o'r *Guardian* ym mis Chwefror 2024, dywedodd y dramodydd Tim Price

'Pe byddech chi'n gofyn i blentyn bach beth ddylai gwleidydd fod, Nye oedd hynny. Fe aeth i mewn i wleidyddiaeth oherwydd ei fod am wneud gwahaniaeth ac ni fyddai'n cyfaddawdu nes ei fod wedi gwneud gwahaniaeth.'

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am fywyd Bevan, gallwch ddarllen amdano ar wefan Cymdeithas Aneurin Bevan.

# Yr angen am lafaredd:

Yn y byd sy'n newid yn gyflym heddiw, mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol, mynegi syniadau, a chymryd rhan mewn deialog ystyrlon wedi dod yn fwy hanfodol nag erioed. Fel yr amlygwyd yn nogfen y Grŵp Hollbleidiol Seneddol (APPG) "Speak for Change," mae llafaredd, datblygu sgiliau siarad a gwrando, yn dal arwyddocâd aruthrol mewn ystafelloedd dosbarth uwchradd.

Mae llafaredd yn gonglfaen i lwyddiant academaidd, symudedd cymdeithasol, a grymuso personol i fyfyrwyr ar draws cefndiroedd a galluoedd amrywiol. Yn yr ystafell ddosbarth uwchradd, lle mae myfyrwyr yn llywio pynciau cymhleth ac yn mynd i'r afael â safbwyntiau amrywiol, ni ellir gorbwysleisio'r angen am sgiliau llafaredd cadarn.

Mae sgiliau llafaredd effeithiol yn grymuso myfyrwyr i fynegi eu hunain gydag eglurder, hyder, ac argyhoeddiad, gan eu galluogi i gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ystafell ddosbarth, dadleuon a phrosiectau cydweithredol. Trwy fireinio eu gallu i fynegi syniadau, gofyn cwestiynau treiddgar, a chymryd rhan mewn deialog barchus, mae myfyrwyr yn meithrin rhinweddau meddwl beirniadol, empathi ac arweinyddiaeth sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn yr ysgol a thu hwnt.

Ar ben hynny, mae llafaredd yn meithrin amgylcheddau dysgu cynhwysol lle caiff pob llais ei werthfawrogi, ei barchu a'i glywed. Mae'n darparu llwyfan i fyfyrwyr rannu eu safbwyntiau unigryw, herio rhagdybiaethau cyffredinol, a chyfrannu'n ystyrlon at fynd ar drywydd gwybodaeth a dealltwriaeth ar y cyd.

Yng nhirwedd ddeinamig yr 21ain ganrif, lle mae technolegau cyfathrebu yn ail-lunio sut rydym ni'n rhyngweithio ac yn cysylltu gyda'r naill a'r llall, mae meithrin sgiliau llafaredd yn cymryd arwyddocâd ychwanegol. Trwy arfogi myfyrwyr gyda'r offer a'r hyder i lywio cyd-destunau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys llwyfannau digidol, mae'r ystafell ddosbarth uwchradd yn eu paratoi i ffynnu mewn cymdeithas fyd-eang gynyddol ryng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol.

Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, mae'n amlwg bod gan lafaredd botensial aruthrol i gyfoethogi profiadau addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth uwchradd, gan rymuso myfyrwyr i ddod yn gyfathrebwyr cymwys, ymgysylltiedig ac empathig sy'n barod i wneud cyfraniadau ystyrlon i'w cymunedau a'r byd yn gyffredinol. Yn yr un modd â sgiliau darllen ac ysgrifennu, rhaid dysgu sgiliau llafaredd yn eglur ac yn arwahanol.

Mae'r gwerthoedd hyn, cynwysoldeb, grymuso, ac ymgysylltu beirniadol, yn adleisio, cefnogi ac atgyfnerthu'r safbwyntiau sosialaidd democrataidd

a hyrwyddwyd gan Nye Bevan. Fel eiriolwr blaenllaw dros gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, a chyfranogiad democrataidd, roedd Bevan yn cydnabod pŵer trawsnewidiol cyfathrebu effeithiol wrth hyrwyddo ei weledigaeth o gymdeithas fwy teg a thosturiol. Wrth gynnwys llafaredd fel agwedd sylfaenol ar addysg, mae ethos sosialaidd democrataidd Bevan yn cael ei gynnal, gan rymuso myfyrwyr i ddod yn gyfathrebwyr cymwys, ymgysylltiedig ac empathig sy’n barod i herio anghyfiawnder a hyrwyddo lles pawb.

# Cynhesu - dod o hyd i'ch llais:

Y peth cyntaf sy'n angenrheidiol wrth ysgrifennu araith yw dod o hyd i'ch llais. Defnyddiwch yr ymarferion hyn i baratoi myfyrwyr ar gyfer lleisio eu syniadau. Gall creu amgylchedd sy'n groesawgar a lle nad oes llawer yn y fantol annog hyd yn oed y siaradwr mwyaf cyndyn i gyfrannu at drafodaeth. Fel athro gall hwyluso perchnogaeth ar syniadau a barn, gan gydnabod hyd yn oed y cyfraniadau lleiaf helpu i greu'r hinsawdd ar gyfer llafaredd a grymuso myfyrwyr.

Defnyddiol i feddwl amdanynt:

- Gellir defnyddio'r gweithgareddau hyn ar eu pen eu hunain i gynhesu ar gyfer un wers neu eu defnyddio gyda'i gilydd fel gwers llafaredd sy'n cyflwyno meddwl allweddol a phynciau'r uned.
- Efallai yr hoffech chi ystyried cynllun corfforol eich ystafell er mwyn eich galluogi i greu'r cyfleoedd gorau ar gyfer siarad a gwrando: a fyddai cynllun cylchol neu gynllun pedol yn fwy ffafriol i drafodaeth? Byrddau wedi'u grwpio yn hytrach na mewn llinell?

Yn dibynnu ar brofiad eich dosbarth o lafaredd a'r amser sydd ar gael, efallai yr hoffech chi ddefnyddio ystod o'r gweithgareddau llafaredd isod:

1. **Gemau cysylltu geiriau** — rhowch air sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu'r thema i fyfyrwyr; dylai myfyrwyr ymateb gyda'r gair cyntaf maen nhw'n ei gysylltu â'r sbardun hwn.
2. **Tynnu llun o ddisgrifiad** — gallai'r rhain fod yn luniau neu baentiadau sy'n cysylltu â'r pwnc hwn neu bwnc arall rydych chi am ei ddefnyddio i roi cyd-destun ym meddwl eich myfyrwyr. Mewn parau, gall Myfyrwyr A weld delwedd maen nhw wedyn yn ei disgrifio i Fyfyrwyr B. Ar ôl tynnu llun cymharwch â'r ddelwedd wirioneddol. Yna mae parau yn cyfnewid ac ailadrodd y broses gyda delwedd newydd. Ar ôl y gymhariaeth derfynol rhwng y ddelwedd a dynnwyd a'r gwreiddiol, ystyriwch pa un oedd hawsaf, disgrifio neu dynnu llun o gyfarwyddyd? Beth oedd yn gwneud partneriaeth lwyddiannus? Mae myfyrwyr yn ystyried sut mae'r sgiliau cyfathrebu hyn yn eu helpu yn eich gwers a'ch pwnc, pynciau eraill yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol?
3. **Goroesi** — mae pob myfyriwr yn dewis eitem bob dydd, gallant ddweud beth yw hwn neu ei ysgrifennu. Nesaf, rhowch senario goroesi iddynt - yn sownd ar ynys anghyfannedd, yn ymladd yn erbyn apocalyps sombïaid, yn ymateb i drychineb naturiol. Mae myfyrwyr mewn 3-4 yn perswadio eu grŵp mai eu heitem nhw yw'r mwyaf effeithiol ar gyfer goroesi. Rhowch adborth i'r dosbarth cyfan.

4. **Ble ydych chi'n sefyll?** — Rhowch ddatganiad i'r myfyrwyr sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu'r thema. Mae myfyrwyr yn gosod eu hunain ar gontinwwm wedi'i sefydlu yn yr ystafell; mae un pen yn cytuno'n llwyr, a'r llall yn anghytuno'n llwyr. Gan gymryd detholiad o fyfyrwyr, gofynnwch iddynt gyfiawnhau ac egluro eu barn ar y datganiad — pam maen nhw'n meddwl hyn? Dylech annog myfyrwyr i adeiladu neu herio'r syniadau a roddir gan fyfyrwyr eraill er mwyn helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfiawnhau a gwerthuso.

Syniadau defnyddiol:

- gofyn i fyfyriwr o ben mwyaf eithafol y continwwm esbonio beth mae'n feddwl, gwahodd myfyriwr yn y safle amgen i ymateb i'w feddwl
- Dechreuwch gyda datganiadau sy'n ymgysylltu â diddordebau eich myfyrwyr i annog cyfranogiad fel:
  - Mae gwaith cartref yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol
  - Dylai'r holl gyfryngau cymdeithasol godi eu cyfyngiadau terfyn oedran i 16+
  - Yr unig beth mae pobl ifanc yn poeni amdanynt yw barn dylanwadwyr a chael hoffiadau ar bethau ar gyfryngau cymdeithasol
  - Mae mynediad at y rhyngrwyd cyflym yn hawl ddynol sylfaenol yn yr 21ain ganrif

**Os ydych chi'n dymuno datblygu hyn ymhellach, gallech ddefnyddio rhai pynciau a awgrymir sy'n gysylltiedig â gwaith Nye Bevan sy'n addas ar gyfer pob ystod o allu:**

- Mae gofal iechyd yn hawl ddynol sylfaenol, a dylai pob unigolyn gael mynediad at wasanaethau meddygol rhad ac am ddim a chynhwysfawr, waeth beth yw ei statws ariannol.
- Mae angen i ni ddefnyddio trethi felly ni ddylai pobl orfod talu am ofal iechyd a gall pawb gael mynediad ato.
- Mae gan y llywodraeth gyfrifoldeb i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb incwm yn weithredol a sicrhau dosbarthiad teg o gyfoeth i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb.
- Dylai'r llywodraeth wneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle teg i gael digon o arian a chyfleoedd fel y gall pawb gael bywyd da.
- Mae undebau llafur yn chwarae rhan hanfodol wrth eirioli dros hawliau gweithwyr a dylent gael yr hawl gyfreithiol i gymryd rhan mewn negodi gyda chyflogwyr.
- Dylai gweithwyr allu gweithio gyda'i gilydd a gofyn am well cyflog ac amodau yn y gwaith.

- Dylai pobl ifanc yn eu harddegau gael pleidleisio yn 16 mlwydd oed i ganiatáu cynrychiolaeth o bob rhan o gymdeithas yn rhediad democrataidd y wlad.
- Dylai pawb gael dweud eu dweud yn y ffordd mae'r wlad yn cael ei rhedeg a dylai'r llywodraeth wrando ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud.
- Mae gwladychiaeth ac imperialaeth yn systemau anghyfiawn sy'n torri ar hawliau a sofraniaeth pobloedd wedi'u gwladychu.
- Mae'n annheg i rai gwledydd reoli eraill a chymryd ymaith eu rhyddid, gan osod eu cyfreithiau a'u barn eu hunain. Dylai pob gwlad allu gwneud eu dewisiadau eu hunain.
- Dylid gwneud pob ymdrech i hyrwyddo dadwladychu a hunan-benderfyniad.
- Dylem helpu gwledydd a oedd unwaith yn drefedigaethau neu'n cael eu rhedeg gan wlad arall i ddod yn annibynnol a gwneud eu dewisiadau eu hunain.
- Mae cydweithredu rhyngwladol a diplomyddiaeth yn hanfodol ar gyfer datrys gwrthdaro a mynd i'r afael â heriau byd-eang fel newid yn yr hinsawdd, tlodi, a throseddau hawliau dynol.
- Mae angen i wledydd weithio gyda'i gilydd a siarad â'i gilydd i ddatrys problemau mawr fel llygredd a thlodi.
- Dylai polisïau'r Llywodraeth flaenoriaethu anghenion aelodau mwyaf bregus o'r gymdeithas, gan gynnwys plant, yr henoed, ac unigolion ag anableddau, er mwyn sicrhau eu lles a'u hurddas.
- Dylai'r llywodraeth wneud yn siŵr bod pobl sydd angen help fwyaf, fel plant a'r henoed yn cael yr hyn maen nhw ei angen i fyw bywyd da.
- Mae'r wladwriaeth les yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer unigolion a theuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd a dylid ei ehangu i gynnig gwasanaethau cymdeithasol a chymorth mwy cynhwysfawr.
- Dylai'r llywodraeth wneud yn siŵr bod help ar gael i'r rhai nad oes ganddynt lawer o arian megis rhoi bwyd a lloches iddynt.
- Mae sosialaeth yn cynnig dewis arall hyfyw yn lle systemau cyfalafol, gan hyrwyddo perchnogaeth ar y cyd o adnoddau a dosbarthu cyfoeth yn gyfartal er budd y gymdeithas gyfan.
- Ni ddylai cymdeithas ganolbwyntio ar wneud arian i ychydig o bobl yn unig. Dylem rannu adnoddau a sicrhau bod gan bawb yr hyn maen nhw ei angen.

# Rhethreg Nye Bevan — archwilio lleisiau eraill

**Archwilio dyfeisiau rhethregol**

Gellir disgrifio rhethreg fel y grefft o siarad a darbwyllo effeithiol trwy weithredu ystod o ddyfeisiau ieithyddol.

Cofair defnyddiol i gofio ystod o dechnegau rhethregol yw:

**PERSUADE**

**P** (*Pronouns*) Rhagenwau — gall defnyddio 'chi', 'ni' greu perthynas rhwng y siaradwr a'r gynulleidfa gan wneud eich dadl yn fwy personol.

**E** (*Emotive language*) Iaith emosiynol — bydd annog eich gwrandäwr i gael ymateb emosiynol i'ch syniadau yn helpu i wneud eich neges yn fwyfwy perswadiol.

**R** (*Rhetorical questions/repetition/rule of three*) Cwestiynau rhethregol/ailadrodd/rheol tri — mae'r technegau hyn yn pwysleisio eich negeseuon allweddol, ac yn annog eich gwrandäwr i ystyried eu barn eu hunain ar y pwnc.

**S** (*Statistics*) Ystadegau — yn gwneud eich dadl yn fwy argyhoeddiadol a chredadwy.

**U** (*Use of an authority figure*) Defnyddio ffigwr awdurdod — mae defnyddio llais arbenigwr yn ychwanegu dibynadwyedd a hygrededd i'ch syniadau.

**A** (*Anecdote/alliteration*) Hanesion/cyflythreniad — mae defnyddio hanesion yn annog eich gwrandäwr i uniaethu â'ch persbectif a gall fod yn gynyddol berthnasol. Bydd cyflythreniad yn helpu i bwysleisio ymadroddion allweddol i'ch gwrandawr eu hystyried.

**D** (*Description and imagery*) disgrifiad a delweddaeth — mae creu darlun byw i'ch gwrandäwr yn annog ymgysylltu a.

**E** (*Exaggeration*) gorliwio — mae defnyddio eithafion a gorliwio yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol a gall greu effaith emosiynol.

Gellir datblygu gwybodaeth myfyrwyr am y technegau hyn trwy gyfateb y dechneg â'r diffiniad/esboniad o effaith. Ymhellach i hyn gellir nodi'r technegau hyn mewn araith bresennol o Nye Bevan. Fel ffigwr amlwg yng ngwleidyddiaeth Prydain, roedd Bevan yn eiriolwr cadarn dros gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, a'r wladwriaeth les. Yn y darnau isod o araith, mae Bevan yn eirioli ac yn hyrwyddo ffurfio'r GIG.

Er mwyn helpu i angori gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o'r testun, anogwch ddarlleniad gweithredol sy'n nodi gwybodaeth benodol i ddechrau trwy ddefnyddio'r awgrymiadau canlynol fel y bo'n briodol. Mae hon yn dasg fer y gellir, gydag ailadrodd, ei chymhwyso i unrhyw destun neu ddetholiad a gall ffurfio arfer da i bob myfyriwr ond yn enwedig y rhai sydd angen cymorth pellach.

**Pwy?** Pwy mae'r testun yn cyfeirio ato? Pwy sy'n rhan o hyn?

**Beth?** Beth yw syniad mawr y testun? Beth sydd ei eisiau?
Beth yw'r pwrpas?

**Pryd?** Pryd mae hyn yn digwydd? Pryd mae'n cyfeirio ato?

**Lle?** Lle mae hyn yn digwydd? Lle mae hyn yn ymwneud ag ef?

Yn dibynnu ar amser a ganiateir gellid ymestyn y dasg ganlynol o nodi dyfeisiau rhethregol i ymarfer sgiliau darllen.

**Sut mae Bevan yn cyfleu ei deimladau a'i safbwyntiau am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ei araith?**

Gallech chi wneud y canlynol:

- Nodi teimladau a safbwyntiau'r awdur.
- Nodi'r dulliau mae'r ysgrifennwr yn eu defnyddio.
- Cefnogi eich ymateb gyda chyfeiriadau at y testun.

# Detholiadau o areithiau Bevan

## Dyma ddetholiad o Araith Bevan Ar Ail Ddarlleniad Bil Y GIG 30 Ebrill 1946.  Ffynhonnell: Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, cyfrol 422, cols. 43-63, 30 Ebrill 1946.

> 'Dylem ymfalchïo yn y ffaith ein bod, er gwaethaf ein pryderon ariannol ac economaidd, yn dal i allu gwneud y peth mwyaf gwaraidd yn y byd: rhoi lles y sâl o flaen pob ystyriaeth arall. Bydded i neb byth amau fod hwn yn Fil sydd wedi bod yn destun yr archwiliad mwyaf gofalus, ac nid yn unig yn y Tŷ hwn ond y tu allan iddo, ac nad oes unrhyw ddiddordeb personol yn y wlad nad yw wedi cael digon o gyfle i archwilio ei darpariaethau. Ond nid yw egwyddor y Bil wedi cael ei herio. Mae'r gwrthwynebiad i'r Bil wedi symud ymlaen o ddau brif achos. Un yw gwrthwynebiad gan y rhai â diddordeb personol pwerus. Rwy'n cofio'r cyfarfodydd yng Nghlwb Carlton. Rwy'n cofio sut y bu i Gymdeithas Feddygol Prydain ymddwyn. Rwy'n cofio'r holl rymoedd grymus a ddygwyd i fodolaeth i atal pasio'r Bil hwn. Ond hoffwn atgoffa'r proffesiwn meddygol eu bod yno nid yn unig i gynrychioli eu buddiannau eu hunain ond i gynrychioli buddiannau'r sâl. Hoffwn atgoffa Cymdeithas Feddygol Prydain mai eu cyfrifoldeb nhw nawr yw sicrhau bod iechyd y bobl yn cael gofal priodol. Os byddant yn methu gwneud hynny, bydd y bobl yn gofalu am eu hiechyd eu hunain.'

Allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau o'r canlynol:

- Rhagenwau personol?
- Iaith emosiynol?
- Ailadrodd?
- Cyfarch uniongyrchol?
- Gorliwio?
- Hanesion?
- Rheol tri?

Ar y dudalen nesaf fe welwch fersiwn wedi'i anodi o'r un araith.

'Dylem ymfalchïo[1] yn y ffaith ein bod, er gwaethaf ein pryderon ariannol ac economaidd, yn dal i allu gwneud y peth mwyaf gwaraidd yn y byd[2]: rhoi lles y sâl o flaen pob ystyriaeth arall. Bydded i neb byth amau[3] fod hwn yn Fil sydd wedi bod yn destun yr archwiliad mwyaf gofalus, ac nid yn unig yn y Tŷ hwn ond y tu allan iddo, ac nad oes unrhyw ddiddordeb personol yn y wlad nad yw wedi cael digon o gyfle i archwilio ei darpariaethau. Ond nid yw egwyddor y Bil wedi cael ei herio. Mae'r gwrthwynebiad i'r Bil wedi symud ymlaen o ddau brif achos. Un yw gwrthwynebiad gan y rhai â diddordeb personol pwerus. Rwy'n cofio'r[4] cyfarfodydd yng Nghlwb Carlton[5]. Rwy'n cofio sut y bu i Gymdeithas Feddygol Prydain ymddwyn. Rwy'n cofio'r[6] holl rymoedd grymus[7] a ddygwyd i fodolaeth i atal pasio'r Bil hwn. Ond hoffwn atgoffa'r proffesiwn meddygol eu bod yno nid yn unig i gynrychioli eu buddiannau eu hunain ond i gynrychioli buddiannau'r sâl. Hoffwn atgoffa Cymdeithas Feddygol Prydain mai eu cyfrifoldeb nhw nawr yw sicrhau bod iechyd y bobl yn cael gofal priodol. Os byddant yn methu gwneud hynny, bydd y bobl yn gofalu am eu hiechyd eu hunain.'

1. Mae **rhagenwau personol** 'dylem ymfalchïo' yn annog y gwrandäwr i rannu yn yr anrhydedd o fod yn gymdeithas waraidd flaengar.
2. Mae **gorliwio** 'y peth mwyaf gwaraidd yn y byd' yn amlygu natur ofalgar y gymdeithas hon a rhywbeth y dylem ni ddyheu amdano.
3. **Cyfarch uniongyrchol** Mae 'Bydded i neb byth amau' a 'Hoffwn atgoffa'r proffesiwn meddygol' yn rhoi awdurdod i Bevan sy'n dangos ei fod yn gweithio dros achos moesol ac anrhydeddus.
4. **Ailadrodd** Mae 'Rwy'n cofio...' yn pwysleisio'r ystod o heriau mae symbyliad Bevan i sicrhau pasio'r Bil hwn wedi'u hwynebu.
5. Mae **hanesion** 'cyfarfodydd yng Nghlwb Carlton', 'sut y bu i Gymdeithas Feddygol Prydain ymddwyn', 'y grymoedd grymus' yn dangos pa mor bell yr oedd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r Bil hwn wedi mynd er mwyn ceisio atal ei basio.
6. Mae adran **Rheol tri** 'Rwy'n cofio' yn pwysleisio'r anawsterau mae'r Bil wedi gorfod eu goresgyn; mae'n atgyfnerthu ei ymdrechion diderfyn a'i benderfyniad di-wyro i wneud i hyn ddigwydd.
7. Mae iaith **emosiynol** 'yr holl rymoedd grymus' yn rhoi ymdeimlad o ddirgelwch a phwerau sinistr yn ceisio atal pasio'r Bil.

# Dyma ddarn o araith Nye Bevan ar ail ddarlleniad Bil y GIG ar Ebrill 30, 1946. Ffynhonnell: Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, cyfrol 422, cols. 43-63, 30 Ebrill 1946.

> 'Ac felly rwy'n dod at y perygl olaf: y gall y Tŷ hwn, sy'n cynrychioli traddodiadau mawr democratiaeth Brydeinig, gael ei gamarwain gan bropaganda croch Cymdeithas Feddygol Prydain. Gadewch inni beidio â chael ein camarwain ganddynt. Gadewch inni gofio nad yw'r Bil hwn yn Fesur i ddiwygio Cymdeithas Feddygol Prydain. Nid ein busnes ni yw hynny. Mae'n Fil i ddarparu'r gwasanaeth iechyd gorau y gall gwareiddiad modern ei ddyfeisio, ar gyfer pob dyn a dynes a phlentyn yn y wlad hon, ni waeth pwy ydyn nhw na beth yw eu sefyllfa mewn bywyd. Gadewch i ni beidio â chael ein camarwain gan y dadleuon ynghylch y Gymdeithas Feddygol. Nid yw'r Bil hwn yn cael ei gyfeirio yn erbyn y meddygon mewn unrhyw ffordd. Nid yw'n cael ei gyfeirio yn erbyn ymarfer preifat. Mae'n cael ei gyfeirio tuag at un peth yn unig: darparu gwasanaeth iechyd cynhwysfawr i bobl y wlad hon.'

Allwch chi nodi enghreifftiau o'r canlynol:

- Rhagenwau Personol?
- Iaith emosiynol?
- Ailadrodd?
- Gorliwio?
- Rheol tri?
- Iaith emosiynol?

'Ac felly rwy'n dod at y perygl olaf[1]: y gall y Tŷ hwn, sy'n cynrychioli traddodiadau mawr democratiaeth Brydeinig, gael ei gamarwain gan bropaganda croch[2] Cymdeithas Feddygol Prydain. Gadewch i ni beidio â chael ein camarwain[3] ganddynt. Gadewch i ni[4] gofio nad yw'r Bil hwn yn Fesur i ddiwygio Cymdeithas Feddygol Prydain. Nid ein busnes ni yw hynny. Mae'n Fil i ddarparu'r gwasanaeth iechyd gorau y gall gwareiddiad modern ei ddyfeisio[5], ar gyfer pob dyn a dynes a phlentyn yn y wlad hon, ni waeth pwy ydyn nhw na beth yw eu sefyllfa mewn bywyd. Gadewch i ni[6] beidio â chael ein camarwain gan y dadleuon ynghylch y Gymdeithas Feddygol. Nid yw'r Bil hwn yn cael ei gyfeirio yn erbyn y meddygon mewn unrhyw ffordd. Nid yw'n cael ei gyfeirio yn erbyn ymarfer preifat. Mae'n cael ei gyfeirio tuag at un peth yn unig: darparu gwasanaeth iechyd cynhwysfawr i bobl y wlad hon.'

1. Mae **iaith emosiynol** 'y perygl olaf' yn awgrymu bod risg a bygythiad yn agored i gymdeithas ehangach os na chaiff y Bil hwn ei basio.
2. Mae **gorliwio** 'bropaganda croch' yn awgrymu bod y dadleuon gan Gymdeithas Feddygol Prydain yn gelwyddau swnllyd.
3. **Ailadrodd** Mae 'Gadewch i ni beidio â chael ein camarwain' yn awgrymu bod pobl yn ceisio dweud celwydd wrth bobl ac mae Bevan yn defnyddio hyn i bwysleisio ei fod ef yn dda.
4. Mae **Rhagenwau Personol** 'gadewch i ni' ac 'nid ein busnes ni' yn dangos ymdeimlad o gymuned a chryfder i'w neges a'i ddelfrydau.
5. **Gallai iaith emosiynol** 'ddarparu'r gwasanaeth iechyd gorau y gall gwareiddiad modern ei ddyfeisio' wneud i'r gwrandäwr deimlo fel ei fod yn rhan o ideoleg urddasol, anrhydeddus a dymunol.
6. Mae **Rheol tri** 'Gadewch i ni' yn gweithredu fel galwad i weithredu, gan annog y gwrandäwr i gael ei brocio a'i ysgogi i gefnogi'r Bil hwn.

# Gweithredu — datblygu eich llais

Yn yr adran hon bydd myfyrwyr yn datblygu araith berswadiol. O weithgareddau blaenorol, mae myfyrwyr wedi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gonfensiynau ysgrifennu perswadiol, trafodol, nawr yw eu cyfle i roi'r dysgu hwn ar waith. Gall hyn fod mewn ymateb naill ai i'w diddordebau eu hunain neu mewn perthynas ag un o'r ysgogiadau trafodaeth blaenorol o **ble ydych chi'n sefyll?** Mae'r gweithgaredd yn dibynnu ar eich dosbarth a'ch canlyniadau arfaethedig megis pwrpas a chynulleidfa.

**Cynnwys a threfniadaeth**

Cynhyrchu syniadau priodol: Yn aml, dyma'r rhan anodd o'r broses!
Rhai dulliau posibl:

- Rhowch ddatganiad i fyfyrwyr (fel uchod) fel ysgogiad.
- Rhowch ddelweddau i fyfyrwyr o ddelweddau emosiynol o broblemau megis tlodi, gwersylloedd ffoaduriaid, banciau bwyd, newid yn yr hinsawdd.
- Gwyliwch TEDTalks priodol ar-lein neu ewch ati i wylio neu wrando ar recordiadau siaradwyr cyhoeddus eraill fel Nye Bevan, Emma Watson, Greta Thunberg, Malala Yousafzai.
- Gall myfyrwyr fapio eu syniadau meddwl: gall hyn gael ei fodelu gan yr athro i annog metawybyddiaeth. Dylai hefyd fod trafodaeth ynghylch sut y gellir dilyniannu syniadau yn ôl blaenoriaeth, ar ôl iddynt eu llunio.

**Strwythuro syniadau ac ysgrifennu rhethreg**

Unwaith y bydd myfyrwyr wedi cynhyrchu syniadau, mae strwythur yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau eu bod yn argyhoeddiadol ac yn fanwl. Mae strwythur a awgrymir fel yr amlinellir yma.

Beth yw'r broblem fel maen nhw'n ei gweld fel trosolwg?
3 mater/ateb posibl.
Galwad derfynol i weithredu.

Ar ôl mapio eu syniadau, gall myfyrwyr wedyn ddefnyddio'r rhestr wirio o ddyfeisiau rhethregol a brawddegau amrywiol i helpu.

# Enghraifft o fap-meddwl/cynllun

**Datganiad/ Syniad Canolog**

Mae cydweithredu rhyngwladol a diplomyddiaeth yn hanfodol ar gyfer datrys gwrthdaro a mynd i'r afael â heriau byd-eang fel newid yn yr hinsawdd, tlodi, a throseddau hawliau dynol.

↓

**Problem**

Er bod problemau cyffredin ar draws y byd megis, nid oes digon o gydweithio yn digwydd sy'n golygu nad oes un dull cydlynol unigol.

↙ ↓ ↘

**Mater/ Datrysiad**

| Mater/Datrysiad | Mater/Datrysiad | Mater/Datrysiad |
|---|---|---|
| Mater/Datrysiad: nid oes digon yn cael ei wneud ynghylch newid yn yr hinsawdd. Mae angen i wledydd weithio gyda'i gilydd. | Mater/ Datrysiad: mae anghydraddoldeb yn cael ei greu pan nad oes gan bobl ledled y byd ddigon o arian. Dylai gwledydd weithio gyda'i gilydd i wella amodau byw. | Mater/Datrysiad: mae gan rai gwledydd broblemau gyda materion fel gwahaniaethu, trais a rhyfeloedd sy'n bygwth hawliau a diogelwch pobl. Mae angen i ni gryfhau sefydliadau byd-eang fely Cenhedloedd Unedig. |

↓

**Problem**

Galwad Terfynol i Weithredu: mae fyny i ni wneud gwahaniaeth, gweithio gyda'n gilydd, siarad am yr hyn sy'n iawn, codi ymwybyddiaeth o'r materion mae pobl yn eu hwynebu. Sefyll gyda'n gilydd i gyfuno ein lleisiau.

# Taflen cynllunio araith

| Brawddegau Amrywiol | | Fy enghraifft |
|---|---|---|
| **Strwythurau:** | **Enghraifft:** | |
| Rhai; eraill | Mae rhai gwledydd yn blaenoriaethu eu buddiannau eu hunain ar draul llesiant y byd; mae eraill yn gweld brys cydweithio i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd. | |
| 2 bâr | Yn hen ffasiwn a chyntefig, difeddwl a barbaraidd, nid oes lle i dlodi yn ein byd modern. | |
| 3 ansoddair | Yn golledig, unig, a chamddealledig, mae pobl ddiniwed wedi dioddef canlyniadau tlodi. | |
| Gair emosiwn, coma | Yn gynddeiriog, rwy'n parhau i annog ein bod yn cryfhau cydweithrediad rhyngwladol. | |
| Pe, pe, pe, yna | Pe gallem weld synnwyr, pe bai arweinwyr yn ei ewyllysio, pe bai dinasyddion yn ei gefnogi, yna gallem wirioneddol wneud cynnydd. | |
| Tu allan. (Tu mewn.) | Tu allan mae tlodi'n cael ei bortreadu fel unigolyn yn methu (Tu mewn, mae'n adlewyrchu anghyfiawnderau systematig). | |
| Dwbl –ol (adferf) | Yn angerddol ac yn fwriadol mae'r ymgyrchwyr yn parhau i wylo am gyfiawnder. | |
| 3 drwg — cwestiwn? | Haerllug, twp, dideimlad — ai dyma sut rydyn ni'n mynd i'r afael â heriau anghyfiawnder? | |

| Techneg | Diffiniad | Enghraifft |
|---|---|---|
| Rhagenwau Personol | Mae'r awdur yn siarad â'r darllenydd gan ddefnyddio 'chi' a 'ni'. | |
| Iaith emosiynol | iaith sy'n gwneud i'r darllenydd deimlo rhywbeth. | |
| Cwestiwn rhethregol | cwestiwn nad oes angen ei ateb ac sy'n gwneud i'r darllenydd feddwl. | |
| Ystadegau | defnyddio ffeithiau rhif i ategu syniad | |
| Defnyddio ffigurau awdurdod | Yn gwneud eich dadl yn fwy argyhoeddiadol a dibynadwy | |
| Disgrifiad a delweddau | Defnyddio trosiadau a thebygrwydd | |
| Gorliwio | Mynd dros ben llestri i bwysleisio a phrofi eich pwynt | |
| Ailadroddiad au/grŵp o 3 | 3 gair neu ymadrodd | |

# Cyflwyno: perfformio eich llais

Ar ôl i fyfyrwyr lunio eu hareithiau, y cam nesaf yw eu cyflwyno mewn ffordd effeithiol a phwerus. Yn dibynnu ar eich dosbarth gall hwn fod yn berfformiad sengl o areithiau neu efallai y bydd myfyrwyr yn mynd â'r rhain i ffwrdd i ymarfer a rhoi sglein ar eu cyflwyniad. Yn aml, dyma'r pwynt lle mae myfyrwyr yn ei chael hi'n anghyfforddus siarad o flaen cynulleidfa, felly gall dechrau gyda gweithgareddau heb fawr yn y fantol gyda chynulleidfa fach greu'r amgylchedd cynhwysol sydd ei angen a gellir ei reoli i weddu orau i'ch myfyrwyr.

**Cynhesu Lleisiau**

Y pwrpas yma yw ymarfer defnyddio ein llais mewn gwahanol ffyrdd felly nid yw'r hyn sy'n cael ei ddweud yn bwysig, dim ond y cyflwyno. I'r perwyl hwn, bydd rhoi nonsens i fyfyrwyr berfformio fel cwlwm tafod, testun dalfannau lorem ipsum neu ddyfyniad o wyddoniadur yn gweithio'n dda yma. Gellir perfformio'r gweithgareddau hyn mewn grwpiau bach i gynorthwyo hyder myfyrwyr neu mewn parau sy'n cyflawni tasgau ar yr un pryd er mwyn cyfyngu sylw at un myfyriwr:

- cwlwm tafod — yn cael ei gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd megis fel pennaeth, rheolwr tîm ar hanner amser, rhiant yn rhoi ffrae i blentyn... mae'r rhestr wir yn ddiddiwedd yma a dylai fod yn gyfle i fyfyrwyr gael hwyl.
- Seirenau — yn perfformio testun nonsens, mae myfyrwyr yn dechrau ar eu hystod lleisiol isaf ac yn raddol yn llithro i fyny i'w hystod uchaf ac yna'n ôl i lawr eto, gan swnio fel seiren.
- Pŵer y saib — gan ddefnyddio testun nonsens, mae myfyrwyr yn perfformio eu haraith gan ystyried ble mae'r lleoedd mwyaf effeithiol ar gyfer seibiannau i'w helpu i 'swnio'n' berswadiol. Yn ddiweddarach gan ddefnyddio eu hareithiau eu hunain, gellir ymestyn y gweithgaredd hwn. Pan fydd gan fyfyrwyr goma yn eu gwaith, gallant gymryd cam i'r ochr; pan fydd atalnod llawn yn eu gwaith maen nhw'n cymryd cam ymlaen. Nod y gweithgaredd hwn wedyn yw codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyflymder eu cyflwyno.

- Botwm sain - gan ddefnyddio testun nonsens, mae myfyrwyr yn dechrau bron yn anghlywadwy tra byddwch chi neu fyfyriwr arall yn rheoli'r botwm sain gan symud i'r lleisiau uchaf. Gall y rhai sy'n rheoli'r botwm sain arbrofi ei droi i fyny ac i lawr. Mae'n bwysig tynnu sylw myfyrwyr nad gweiddi yw hyn ond taflu llais. Efallai yr hoffech archwilio anadlu diafframatig.
- Ymlaen yn gyflym - Amrywiad o'r gêm uchod, yn hytrach na sain mae myfyrwyr yn mynd o'r arafaf y gallant gyflwyno eu haraith i'r cyflymaf. Pwysleisiwch i fyfyrwyr y dylai eu geiriau fod yn ddealladwy o hyd.

# Meini prawf asesu — mae fy llais yn bwerus

Dylid annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu perfformiadau. Gellir gwneud hyn yn anffurfiol trwy drafodaeth neu ei addasu i foment fwy ffurfiol o fetawybyddiaeth i fyfyrwyr.

Myfyriwch ar eich llwyddiannau trwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol.

A oeddwn i...

- Yn glywadwy? A allai'r gynulleidfa fy nghlywed?
- A wnes i amrywio cyflymder fy nghyflwyno trwy gydol fy araith?
- A wnes i amrywio sain fy siarad i ddiddori fy nghynulleidfa?
- A wnes i ddefnyddio ystod o arlliwiau i gyd-fynd â'm syniadau?
- A wnes i ddefnyddio seibiau i helpu fy ngwrandäwr i feddwl am yr hyn roeddwn i'n ei ddweud a/neu fyfyrio ar eu syniadau eu hunain?
- Pa sgiliau rydw i wedi'u hymarfer wrth wneud hyn?
- Sut fydd hyn yn fy helpu yn y pwnc hwn a phynciau eraill yn yr ysgol?
- Sut gallai'r sgiliau hyn fy helpu yn y dyfodol? Y tu allan i'r ysgol?

Gallwch archwilio mwy am sut i ofalu am eich llais, cynhesu ei llais a defnyddio eich llais yn effeithiol gyda'r ffilmiau byr hyn gan adran Llais y National Theatre.

Ysgrifennwyd yr adnodd dysgu hwn gan yr ymgynghorydd addysg Jane Ball, gyda chyfieithiad gan Elen Gwenllïan, Cyfieithu Acen Ltd.

Am ragor o wybodaeth am y National Theatre a'n gwaith gydag ysgolion, ewch i **nationaltheatre.org.uk**